**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANFAIR A GYNHALIWYD YN Y NEUADD GOFFA, LLANFAIR AM 7.30 O'R GLOCH 27.02.19**

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Caerwyn Roberts.

**PRESENNOL**
Cyng. Eurig Hughes (Cadeirydd), Russell Sharp (Is Gadeirydd), Gerallt Jones, Dylan Hughes, David J. Roberts, Robert G. Owen, Mair Thomas, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

**COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ionawr 9ed 2019 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI**
**Cynllun Cyllideb**
Adroddwyd bod £19,720.61 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £2,973.99 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. 'Roedd hyn oherwydd bod y costau o dorri gwair y llwybrau cyhoeddus ddim gymaint a beth oedd wedi ei glustnodi (wedi clustnodi £1,200 ar gwariant yn £815), nid oedd costau'r fynwent wedi bod gymaint (£1,667 wedi ei glustnodi hyd yma ar gwariant yn £720), ddim gymaint o gyfraniadau wedi cael eu talu (£500 wedi ei glustnodi ar gwariant yn £450).

**Polisi Asesiad Risc y Cyngor**
Adroddodd y Cyng. Mair Thomas ei bod wedi cario allan asesiad risc o'r hysbysfyrddau a cafwyd y daflen wybodaeth am hyn yn nol ganddi. Cytunwyd gofyn i Mr. Hywel Jones osod yr hysbysfwrdd newydd ger groesffordd Caersalem cyn gynted a phosib. Ar ol trafodaeth cytunwyd bod ddim angen cario allan asesiad risc o'r llwybrau cyhoeddus oherwydd bod y sawl sydd yn torri gwair yn gwneud hyn ag hefyd bod Cymdeithas y Cerddwyr yn adrodd yn nol os bydd llwybr angen sylw.

**Llinellau Melyn ger stesion Llandanwg**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon at Mr. Dylan Wyn Jones o'r Adran Drafnidiaeth yn Gaernarfon yn gofyn a fyddai yn bosib ymestyn y llinellau melyn dwbwl sydd ar y ffordd i lawr am Landanwg i lawr hyd at Glangors am bod pryder a cwynion wedi eu derbyn bod ceir yn parcio yn agos iawn i'r bont (yn enwedig os ydynt yn defnyddiio y tren) ag yn gadael eu ceir yna drwy'r dydd ar rhai adegau oherwydd bod ddim llinellau melyn dwbwl wedi eu peintio ar y ffordd. Adroddodd ymhellach ei bod wedi cael ymateb a cynllun yn dangos llinellau melyn wedi eu gosod ar hyd y ffordd lawr i gyferbyn Min y Mor ag ei bod wedi cysylltu gyda'r Cyng. Mair Thomas ynlgyn a hyn ag eu bod wedi cytuno mae ddim ond at Glangors oeddynt wedi gofyn am linellau. Adroddodd y Cyng. Mair Thomas ei bod wedi ail feddwl am hyn ag angen mwy o drafodaeth ynglynar mater yn y cyfarfod hwn. Adroddodd rhai Aelodau eu bod wedi ymweld ar safle ag yn cytuno bod angen llinellau melyn dwbwl cyn belled a Glan Gors oherwydd byddai hyn yn ei gwneud yn fwy diogel i rhai eraill sydd yn defnyddio y ffordd ac adroddodd y Clerc yn ei swydd fel y Cynghorydd Sir lleol ei bod wedi ymweld ar safle ag yn cytuno bod angen i'r llinellau hyn gael eu ymestyn. Dangosodd y Cyng. Mair Thomas luniau oedd wedi ei tynnu o'r safle a cytunwyd felly i gario ymlaen a gofyn i'r llinellau melyn gael eu ymestyn lawr hyd at Glan Gors.

**Pwyllgor Neuadd Goffa – 20.2.19**
Adroddodd y Cyng. Robert G. Owen ei fod wedi mynychu y cyfarfod uchod ar ran y Cyngor a bod ddim llawer i'w adrodd heblaw bod y pwyllgor yn y broses o waredu offer y cae chwarae. Cafwyd wybod bydd y cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal ar y 10ed o Ebrill ag hefyd bod y pwyllgor yn trefnu noson agored i Mr. David Evans ddod i roi hyfforddiant o sut i ddefnyddio y diffribular.

402......[signature].................Cadeirydd

**Hamdden Harlech ac Ardudwy**

Adroddodd y Cyng. Mair Thomas ei bod wedi mynychu cyfarfod o'r uchod ar nos Iau yr 17eg o Ionawr a bod y Cyfarwyddwyr presennol wedi datgan bod yn nawr pump Cyfarwyddwr gwirfoddol yn bendant yn aelodau o'r Bwrdd ag gyda un arall yn ymuno a hwy yn fuan. Hefyd cafwyd wybod bydd y Bwrdd yn gwneud datganiad yn dweud yn bendant bydd y pwll ddim yn mynd i gael ei chwalu a bod gwesty yn mynd i gael ei adeiladu ar y safle yn lle fel oedd honiadau wedi cael ei gwneud yn ddiweddar. Hefyd cafwyd wybod eu bod wedi cyflogi un gweithiwr newydd ag eu bod yn mynd i adnewydd y cadwynau ar y wal ddringo.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Gosod cyswllt carffosiaeth tanddaearol mewn perthynas a caniatad cynllunio NP5/66/70M dyddiedig 16.3.2018 – Tir i gefn LLwyn Onn, Pant yr Onnen, Llanfair (NP5/66/70P)**

Cefnogi y cais hwn.

**Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt**

Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf.

**ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Adroddodd y Trysorydd bod £6,002.50 yn y cyfrif rhedegol, a £5,507.07 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Mr. M. J. Kerr | – £80.00 – | agor bedd y diweddar Mr. William Sydney Hull (llwch) |
| Mrs Annwen Hughes | - £380.00 | (cyflog 3 mis) + £319.38 (costau blwyddyn) = £699.88 |
| Mr. Eurig Hughes | - £72.00 - | archebu giat i'w gosod yn y fynwent gyhoeddus |

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Mr. M. Downey | - £40.00 | - rhent cwt yr hers (Chwefror) |
| Cyllid a Thollad | - £174.19 | - ad-daliad T.A.W. |
| Pritchard a Griffiths | - £478.00 | - claddu llwch y diweddar Mr. William Sydney Hull |

**Ceisiadau am gymorth ariannol**

CFFI Meirionnydd - Dim

Ambiwlans Awyr Cymru – Ddim ar hyn o bryd.

**GOHEBIAETH**

**Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd**

Wedi cael ateb i'r materion a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor ac adroddodd y Clerc bod y gwaith o docio coed yr oedd wedi gofyn i gael eu gwneud ar rhiw Cae Cethin wedi cael ei gario allan yr wythnos wedyn, ag bod y mater o'r "manhole" yn maes parcio Llandanwg wedi cael ei gyfeirio i Gwenan Huws Tomos yn Gaernarfon ond ei bod heb gael ateb eto, ag adroddodd y Clerc ymhellach ei bod y mater o linellau melyn ar ffordd Llandanwg wedi ei drafod yn barod.

**Cyngor Gwynedd – Adran Trafnidiaeth**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynghyd a linc ynglyn a llenwi holiadur parthed Adolygu Cludiant Cyhoeddus y Cyngor. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i bawb oedd gan gyfeiriad e-bost ag ei bod wedi darparu copi papur i rhai oedd heb cyfeiriad e-bost. Dywedodd y Clerc bod yr holiadur hwn i fod i gael ei gwblhau erbyn y30ain o Ebrill.

**Parc Cenedlaethol Eryri**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod yr Awdurdod wedi cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ar yr Archwiliad i Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Eryri (2016-2031) ag ei fod ar gael i'w archwilio yn swyddfa'r Parc.

**CFFI Meirionnydd**

Wedi derbyn llythyr gan y Mudiad uchod ynghyd a taflen banc yn gofyn am gyfraniad ariannol gan y Cyngor. Cytunwyd peidio a rhoi cyfraniad i'r uchod.

......RRS[signature]...............Cadeirydd

**Ambiwlans Awyr Cymru**
Wedi derbyn llythyr gan y Mudiad uchod ynghyd a taflen banc yn gofyn am gyfraniad ariannol gan y Cyngor. Cytunwyd peidio a rhoi cyfraniad i'r uchod ar hyn o bryd ond anfon llythyr iddynt yn gofyn am fwy o wybodaeth ynglyn a faint o wasanaeth y maen't yn ei roi i'r ardal hon.

**UNRHYW FATER ARALL**
Nid oedd gan neb unrhyw fater arall i'w drafod.

**Dyddiad Cyfarfod Nesa**
**Penderfynwyd cynnal cyfarfod nesa y Cyngor ar nos Fercher Ebrill 17eg 2019 am 7.30 o'r gloch**

**ARWYDDWYD**..........................................................Cadeirydd

**DYDDIAD**......17/4/19......................................